Lesley Griffiths AC/AM
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-945
Ein cyf/Our ref LG/00251/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@gov.wales

11 Chwefror 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 27 Ionawr ynghylch Deiseb P-05-945 Coed Cadw ar yr Argyfwng Hinsawdd a Choedwig Genedlaethol i Gymru.

Mae Strategaeth *Coetiroedd i Gymru* Llywodraeth Cymru yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau bod mwy o goed yn cael eu plannu yng Nghymru a bod coetiroedd yn cael eu creu a'u rheoli'n gynaliadwy.

Mae ein strategaeth hefyd yn cynnwys amcanion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) a wnaeth drosi'n ddeddfwriaeth yr arferion gorau rhyngwladol er mwyn gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae hefyd yn seiliedig ar Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) sef safon cyfeirio'r Llywodraeth ar gyfer rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy yng Nghymru a'r DU.

Mae'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* yn nodi targed o weld cynnydd o fwy na 2,000 o hectarau'r flwyddyn o goetiroedd rhwng 2020 a 2030, a thu hwnt. Pennwyd y ffigur hwn yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Annibynnol y DU ar Newid Hinsawdd i helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £4.5 miliwn i ddechrau sefydlu Coedwig Genedlaethol yng Nghymru. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn cyfrannu at greu mwy o goetiroedd yng Nghymru, ochr yn ochr â mesurau eraill megis cynllun Glastir - Creu Coetir. Bydd y Goedwig Genedlaethol hefyd yn datgloi cyfleoedd eraill, megis helpu cymunedau lleol i gysylltu'n well â'r amgylchedd naturiol a thwristiaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Croesawn obebiaeth yn y Gymraeg. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae plannu coed yn ddyhead hirdymor sy'n golygu bod angen inni newid sut ydym yn defnyddio tir. Ni fyddwn yn gweld y canlyniadau dros nos. Mae'r busnes coedwigaeth yn ei hanfod yn fusnes hirdymor. Mae'n cymryd amser i goed dyfu ac felly mae angen i'n polisïau weithredu yn y byrdymor ond mae'n rhaid iddynt hefyd fod yn berthnasol ymhen 50 mlynedd. Mae'n bwysig bod ein targedau yn uchelgeisiol ac yn realistig.

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn cael eu defnyddio wrth blannu coed i sicrhau bod y goeden gywir yn cael ei phlannu yn y man cywir. Mae hefyd yn bwysig sicrhau cydbwysedd o ran cynnal ein coedwigoedd conwydd cynhyrchiol a hyrwyddo pren o Gymru. Gall mewnforio pren, yn enwedig o ardaloedd lle nad yw'r safonau amgylcheddol mor uchel â'n rhai ni, fod yn broblematig ac rwy'n ei ystyried yn hanfodol ein bod yn annog diwydiant pren deinamig yng Nghymru.

Mae angen ystyried plannu coed ochr yn ochr ag adnoddau naturiol pwysig eraill megis cynefin, tirwedd ac ansawdd dŵr er mwyn sicrhau'r manteision economaidd ac amgylcheddol gorau posibl yn deillio o ehangu'r gorchudd coetir yng Nghymru.

Mae dull gweithredu a fframwaith cyflenwi Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ymwneud â gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy fabwysiadu arferion gorau rhyngwladol. Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi 'rhwydweithiau ecolegol cydnerth' fel blaenoriaeth ar gyfer gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Ar Ystâd Goetir Llywodraeth Cymru, rydym yn bwrw ymlaen â hynny drwy Ddatganiadau Ardal a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd am annog y cyhoedd i ymwneud â choetiroedd. Dan y Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid tuag at Llais y Goedwig. Mae Llais y Goedwig yn grŵp rhwydwaith ar lawr gwlad sy'n cefnogi grwpiau coetir cymunedol ar draws Cymru. Mae gan Llais y Goedwig sylfaen gwirfoddoli mawr ac mae'n gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau, grwpiau cymunedol ac unigolion eraill i hyrwyddo coetiroedd cymunedol yng Nghymru.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths ~~AC/AM~~**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs